# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Cabinet 10/10/2018

Annwyl Aelod,

**Cabinet – 16 Hydref 2018**
**ADRODDIADAU HWYR**

Atodaf adroddiadau hwyr yng nghyswllt yr eitemau isod:-

**10. YMGYNGHORIAETH YR AWDURDOD TAN** 2 - 39
*Cyng / Cllr Dyfrig Siencyn*

Yn gywir,

*Annes*

Annes Sion

**Swyddog Cefnogi Aelodau**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **16 Hydref 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679002** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ymgynghoriad cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Gofynnir i'r Aelodau Cabinet adnabod egwyddorion ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ynghyd â gofyn i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr lunio ymateb llawn i'r ymgynghoriad o fewn yr amserlen.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn derbyn barn am ariannu gwasanaethau tân ac achub yn 2019/20. Cafodd cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyfle i egluro'i Ymgynghoriad Cyhoeddus yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 4 Hydref. Roedd y ffocws ar yr her ariannol, ac yn amlwg byddai risg i fywydau pobl Gwynedd yn flaenoriaeth.

2.2 Fel cyd-destun cyn y drafodaeth i adnabod egwyddorion ar gyfer ymateb ar ran y Cyngor, nodaf fod yr Awdurdod Tân yn ymgynghori am gynyddu'r ardoll o 6% erbyn 2019/20, tra mae setliad grant drafft Llywodraeth Cymru i'r Cynghorau erbyn 2019/20 yn doriad llym, toriad -0.8% i Gyngor Gwynedd, nid cynnydd.

2.3 Bydd Cyngor Gwynedd yn wynebu lefel chwyddiant uchel a gofynion am adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau anorfod a bydd raid i'r Cyngor wireddu arbedion er mwyn fforddio hynny.

2.4 Yn y cyfnod yma mae awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi gorfod torri cyllidebau, lleihau gwasanaethau, a diswyddo staff er mwyn gwireddu arbedion ym mhob maes, ond nid oes llawer o dystiolaeth o gynlluniau cyffelyb bydd y Gwasanaeth Tân yn gweithredu er mwyn arbed costau.

2.5 Dylid cofio bydd cynyddu'r ardoll Tân erbyn 2019/20 yn golygu bydd raid i'r Cyngor ddarganfod mwy o arbedion ein hunain erbyn 2019/20. Byddai cyfraniad

Gwynedd tuag at gynyddu ardoll yr Awdurdod Tân 6% yn £335,147 (cyfwerth â 0.5% ar y Dreth Cyngor).

2.6 Gofynnir felly i'r aelodau Cabinet adnabod egwyddorion ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, gan ofyn i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr lunio ymateb llawn i'r ymgynghoriad.

**3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

**4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

4.1. Ymateb i'r ymgynghoriad llawn gan ddefnyddio'r egwyddorion sydd wedi eu hadnabod gan y Cabinet erbyn y dyddiad cau o 2il o Dachwedd, 2018.

**5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

5.1. **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys

**Atodiadau**

Dogfen ymgynghoriad Cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Ymgynghoriad Cyhoeddus

Rydyn ni eisiau cael eich barn am ariannu gwasanaethau tân ac achub yn 2019/20.

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 2il o Dachwedd 2018.

**Rhagarweiniad a Chrynodeb Gweithredol**

Mae Awdurdod Tân ac Achub wrthi'n gosod ei gyllideb ar gyfer 2019/20. Yn ôl y gyfraith, rhaid iddo beidio â gosod ei gyllideb mor isel fel na fydd yn talu'r costau rhedeg mae'n eu rhagweld, ond caiff osod ei gyllideb ar lefel lle mae'n gorfod gweithredu arbedion costau er mwyn sicrhau bod ei wasanaethau'n fforddiadwy heb fynd dros ei gyllideb.

Felly, mae penderfyniad yr Awdurdod yn ymwneud gymaint â rheoli risg ag y mae am reoli ei arian. Mae'n ymwybodol hefyd o'r effaith y bydd ei benderfyniad yn ei chael ar y cynghorau sir sy'n darparu cyllid yr Awdurdod Tân ac Achub drwy eu cyfraniad blynyddol tuag at ddarparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.

Mae gosod cyllideb fantoledig yn broses anarferol o anodd i'r Awdurdod eleni. Nid yn yn unig ei fod yn wynebu cynnydd anochel yn y costau yn 2019/20, ond mae hefyd yn gorfod ennill tir ar ôl tair blynedd ddilynol o gadw cyfraniadau'r cynghorau sir yn artiffisial o isel drwy gymryd arian o'r cronfeydd sydd ganddo wrth gefn.

Er bod defnyddio cronfeydd wrth gefn fel hyn wedi gweithio'n dda yn lle cynyddu'r cyfraniadau, mae gwir gost darparu gwasanaethau wedi parhau i godi'n raddol yn y cyfamser, ac mae'n ddealladwy fod yr Awdurdod yn gyndyn o wario ei gronfeydd wrth gefn rhag ofn na fyddai ganddo ddim i syrthio'n ôl arno.

**Mae'r bwlch rhwng amcangyfrif costau'r Awdurdod yn 2019/20 a lefel y cyfraniadau ariannol gan y cynghorau sir yn 2018/19 wedi cyrraedd bron i £1.9 miliwn.**

Y penderfyniad sy'n wynebu'r Awdurdod nawr yw cael yr holl swm yn gynnydd yn ei gyllideb y flwyddyn nesaf (ac felly gael £1,898,824 o gynnydd yn y cyfraniad a ddaw gan y cynghorau sir) neu gael swm is o gynnydd yn ei gyllideb a gweithredu mesurau arbed costau fel nad oes siawns ei fod yn rhedeg allan o arian ganol y flwyddyn.

Oherwydd natur y gwasanaethau tân ac achub mae'r Awdurdod yn eu darparu, mae unrhyw benderfyniad i ostwng costau yn siŵr o fod yn anodd.

Ar ôl pwyso a mesur y dewisiadau eraill i sicrhau cyllideb fantoledig y flwyddyn nesaf, mae'r Awdurdod yn ystyried peidio â cheisio gwneud arbedion mawr oherwydd mae'n ystyried y byddai lefel y risg yn rhy uchel ar hyn o bryd. Nid yw diystyru'r syniad o wneud arbedion, ond ni fyddai maint yr arbedion hynny yn 2019/20 yn golygu, er enghraifft, cau gorsafoedd tân neu ddiswyddo diffoddwyr tân.

Ar adeg pryd mae pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu penderfyniadau ariannol anodd, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod dyletswydd arno i sicrhau ei fod yn parhau mor effeithlon â phosibl. Fodd bynnag, mae'n cydnabod hefyd fod dyletswydd arno i i sicrhau ei fod yn gallu darparu lefel ac ansawdd y gwasanaethau tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl, ac nad yw'n cyflwyno lefel annerbyniol o risg yn yr ardal.

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru rannu ei farn â'r Awdurdod cyn iddo osod ei gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20 yn Rhagfyr 2018. Mae'r Awdurdod yn awyddus i gael amrywiaeth eang o farn i'w hystyried cyn iddo wneud unrhyw benderfyniad terfynol am hyn.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth o fudd i chi ac y bydd yn eich annog i gyflwyno eich barn erbyn 2il Tachwedd 2018.

Rydyn ni wedi datblygu cyfres o gwestiynau i'w gwneud hi'n haws i bobl ymateb, a gellir gweld y rhain drwy wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Neu, rydyn ni'n hapus i gael eich sylwadau os yw'n well gennych chi beidio ag ateb y cwestiynau. Gallwch chi gysylltu â ni drwy'r post neu'r e-bost gan ddefnyddio'r manylion isod;

**Drwy'r post i:**
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych, LL17 0JJ

**Drwy e-bost i:**
futurefire@nwales-fireservice.org.uk

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

## BETH YW AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU?

Awdurdod sydd â chyfansoddiad ffurfiol o **ddau ddeg wyth o gynghorwyr** o gynghorau Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, sy'n gyfrifol yn gyfreithiol gyda'i gilydd am ddarparu gwasanaethau tân ac achub i Ogledd Cymru gyfan.

Gweler Daflen Wybodaeth 1 – Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae **dyletswyddau cyfreithiol yr Awdurdod yn cynnwys gwneud yn siŵr fod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion arferol**, sef gweithredu a darparu gwasanaethau tân ac achub gan gynnwys ymateb brys, atal tân a gorfodi diogelwch tân.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol hefyd am wneud yn siŵr fod diffoddwyr tân yn cael yr hyfforddiant cywir i wneud eu gwaith, a bod modd ateb yr alwad a delio â'r digwyddiad yn ddiogel ac yn effeithiol pan fydd rhywun yn deialu 999.

Gweler Daflen Wybodaeth 2 – Pwerau a dyletswyddau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Y Prif Swyddog Tân sy'n gyfrifol am redeg y Gwasanaeth Tân ac Achub yn effeithlon o ddydd i ddydd.

Gweler Daflen Wybodaeth 3 – Gwybodaeth am y Gwasanaeth.

Mae'r Awdurdod yn canolbwyntio ar gyflawni ei rwymedigaeth cyfreithiol, er enghraifft, drwy bennu blaenoriaethau, gosod y gyllideb fel bod ganddo ddigon o arian i dalu ei gostau, monitro perfformiad y Gwasanaeth a bod yn atebol i'r cyhoedd drwy asesiadau perfformiad blynyddol, datganiadau llywodraethu a datganiadau o gyfrifon. Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddaru'n rheolaidd yn www.gwastan-gogcymru.org.uk.

Mae'r Awdurdod hefyd yn ymgysylltu â llawer o'i randdeiliaid, gan roi gwybod iddynt am ei gynlluniau a gwrando ar eu barn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'r broses reolaidd honno o geisio cael adborth fel sail i broses yr Awdurdod o wneud penderfyniadau.

## BETH MAE AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU YN EI WNEUD?

**Mae'n darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.** Ystyr hynny ydi gwneud yn siŵr fod trefniadau ar gael (gan gynnwys digon o arian) i ddarparu gwasanaethau pwysig fel:

- ymladd tanau ac achub pobl o'r tanau hynny;
- delio ag argyfyngau nad ydynt yn danau, megis rhyddhau pobl o gerbydau mewn damweiniau ac achub pobl o lifogydd;
- atal tanau drwy weithio yn y gymuned, rhoi cyngor ar ddiogelwch yn y cartref ac ymweld ag ysgolion i addysgu plant am fod yn ddiogel;
- gwella diogelwch unigolion sy'n arbennig o agored i effeithiau tân a pheryglon eraill;
- gweithio gyda grwpiau a sefydliadau eraill i ostwng nifer yr achosion o losgi a thanau bwriadol;
- gorfodi diogelwch tân drwy weithio gyda rheolwyr safleoedd annomestig megis swyddfeydd a ffatrïoedd, ysgolion ac ysbytai, gwestai a chartrefi gofal i wneud yn siŵr fod mesurau diogelwch tân priodol ar gael yn yr adeiladau y maen nhw'n gyfrifol amdanyn nhw.

Yn ogystal â'r rhain, rhaid i'r Awdurdod sicrhau ei fod yn gallu darparu ymateb i argyfyngau yn ymwneud â chemegau peryglus, adeiladau wedi dymchwel, damweiniau amaethyddol ac awyrennau wedi cwympo. Mae adegau hefyd pryd mae angen i'r Gwasanaeth Tân ac Achub weithio'n effeithlon gyda sefydliadau mewn ymatebion ar y cyd i sefyllfaoedd arbennig. Felly, rhaid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub barhau'n barod, gyda'r hyfforddiant a'r offer, ar gyfer unrhyw un o'r rhain.

Fel unrhyw sefydliad arall yn y sector cyhoeddus, **rhaid i'r Awdurdod gyflawni ei rwymedigaethau i weithredu'n gyfreithlon ac yn effeithiol** mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, rheolaeth ariannol, cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, cyfreithiau hawlfraint, deddfwriaeth llywodraethu gwybodaeth, a chyfraith cyflogaeth. Rhaid i'w gerbydau fod yn addas ar gyfer y ffyrdd, a rhaid i'w adeiladau fod yn ddiogel i weithio ynddynt. Rhaid i'w systemau cyfrifiadurol a ffôn weithio'n effeithlon a bod yn ddiogel. Rhaid i'w staff gael yr hyfforddiant a'r offer cywir i wneud eu swyddi'n ddiogel ac effeithlon. Rhaid iddo dalu ei filiau a rhaid talu'r cyflogau cywir i'r staff am y gwaith maen nhw'n ei wneud.

## PA MOR DDA MAE AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU YN PERFFORMIO?

Rydyn ni'n meddwl ei fod yn perfformio'n dda. Rydyn ni'n meddwl hyn oherwydd:

- **Mae ein gwaith ataliol wedi helpu i wneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel.** Ddiwedd yr 1990au roedden ni'n arfer mynd at ryw 5,000 o danau bob blwyddyn. Erbyn hyn, rydyn ni'n mynd at ryw 2,000. Mae tanau damweiniol yn y cartref yn gyfrifol am lai na thair marwolaeth y flwyddyn erbyn hyn – sef tua hanner y gyfradd yr oedd yn arfer bod ym mlynyddoedd olaf yr 1990au.
- **Mae ein heffeithlonrwydd wedi gwella.** Yn yr 1990au, roedden ni'n arfer mynd at fwy na 5,000 o alwadau diangen bob blwyddyn. Rydyn ni wedi llwyddo i ostwng hynny'n sylweddol, a nawr rydyn ni'n mynd at ffigwr sy'n nes at 2,000 bob blwyddyn.
- **Rydyn ni wedi delio ag amrywiadau mawr yn lefel y galw am wasanaethau** heb orfod gofyn am gyfraniadau ariannol ychwanegol gan y cynghorau sir yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi digwydd er mai gweithlu ar alw (system ddyletswydd RDS) sydd gennym yn bennaf, ac mae cyflogau'r rheini'n gallu amrywio'n fawr yn ôl rhesymau fel y tywydd (yn enwedig cyfnod hir o dywydd arbennig o sych neu arbennig o wlyb, sy'n gallu cynyddu nifer y digwyddiadau a'r amser maen nhw'n para).
- **Rydyn ni'n parhau i archwilio cyfleoedd** i ehangu'r modd rydyn ni'n gysylltiedig ag agweddau eraill ar ddiogelwch y cyhoedd, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn cynlluniau i dreialu cyd-ymateb a mynd at bobl oedrannus sydd wedi cael codwm gartref, gan helpu'r gwasanaethau ambiwlans a'r heddlu.
- **Cydnabuwyd droeon bod y modd rydyn ni'n rheoli ein cyllideb yn dda**:

  "*Mae'r Awdurdod wedi rheoli ei gyllideb yn dda dros y blynyddoedd diwethaf.*" "*...ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo.*" (adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2012.)

  "*bod yr Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol.*" "*Mae gan yr Awdurdod ddull cadarn o reoli ariannol …*" (adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Ebrill 2013.)

  "*parheir i reoli heriau ariannol yn effeithiol, er y bydd graddau'r newid sydd ei angen yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad pendant.*" (adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiad Mehefin 2014.)

  "*Mae trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol yn gadarn.*" "*...Ategir rheolaeth ariannol gan brosesau monitro a rhagfynegi cyllidebau effeithiol ac mae gan yr Awdurdod hanes da o reoli cyllidebau.*" (adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Medi 2016.)

## PWY SY'N TALU AM DDARPARU GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGOGLEDD CYMRU?

Mae pob cyngor yng Ngogledd Cymru yn cyfrannu arian bob blwyddyn tuag at gost darparu gwasanaethau tân ac achub. Mae faint mae'r cynghorau sir yn ei gyfrannu yn dibynnu ar faint mae'r Awdurdod wedi'i amcangyfrif y bydd ei angen i dalu ei gostau rhedeg. Am y tair blynedd ddiwethaf, mae'r Awdurdod wedi osgoi trosglwyddo'r holl gost i'r cynghorau sir ac mae wedi dibynnu ar ddefnyddio rhywfaint o'i gronfeydd wrth gefn.

Mae cyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau tân ac achub yn cael ei ddyrannu i'r siroedd yn ôl y ganran o boblogaeth Gogledd Cymru sy'n byw yno.

| | Amcangyfrif o'r boblogaeth 2018 | Dyraniad fel canran | Cyfraniad i'r Awdurdod Tân ac Achub 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 70,175 | 10.02% | £3,356,175 |
| Gwynedd | 123,660 | 17.66% | £5,914,137 |
| Conwy | 116,879 | 16.69% | £5,589,830 |
| Sir Ddinbych | 95,530 | 13.64% | £4,568,797 |
| Sir y Fflint | 154,923 | 22.12% | £7,409,315 |
| Wrecsam | 139,143 | 19.87% | £6,654,624 |
| | **700,310** | **100.00%** | **£33,492,878** |

Er enghraifft, yn 2018/19 bydd Ynys Môn yn cyfrannu 10.02% o gyllideb Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru oherwydd amcangyfrifir bod 10.02% o boblogaeth Gogledd Cymru yn byw yno.

## FAINT MAE GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YN EI GOSTIO?


Yn hytrach na rhedeg Gwasanaeth Tân ac Achub ar wahân ymhob sir, mae **un Awdurdod Tân ac Achub 'cyfunol' yn gofalu am Ogledd Cymru i gyd.** Y fantais ydi crynhoi costau, er enghraifft: darparu Ystafell Reoli (lle mae galwadau 999 yn cael eu hateb); hyfforddi staff; prynu injanau tân a rhoi serfis iddynt; cynnal a chadw cyfrifiaduron, teclynnau rhybuddio a systemau ffôn; yn ogystal â'r holl orbenion arferol eraill fel biliau cyfleustodau, gweinyddu cyffredinol a gwaith y pencadlys.

Yn bwysicach, mae'r trefniant hwn yn fanteisiol gan ei fod yn gallu darparu gofal gweithredol dros yr ardal gyfan, gan symud cerbydau, offer a chriwiau brys i rywle lle mae eu hangen ar yr adeg dan sylw, gan rannu arbenigedd a threfnu staff drwy adrannau canolog. **Mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn ôl pryd a lle mae eu hangen, nid yn ôl maint y cyfraniad ariannol gan y siroedd unigol.**

Eleni, bydd y cynghorau sir yn cyfrannu cyfanswm o £33,492,878 rhyngddynt. Neu, mewn geiriau eraill, **bydd pob sir yn talu swm sy'n cyfateb i 13 ceiniog y dydd am bob unigolyn sy'n byw yn ei ardal er mwyn i wasanaethau tân ac achub gael eu darparu**.

Yn wir, **ers 2010/11 o leiaf** mae cyfraniadau'r cynghorau wedi aros ar swm sy'n cyfateb i:

- **13 ceiniog y diwrnod y pen;** a
- **rhwng 2.0% a 2.2% o holl gyllidebau'r cynghorau** (net o'u cyfraniadau i'r Awdurdod).





Daw'r ffigyrau o wybodaeth Cyllideb Gwariant Refeniw Gros a gyhoeddwyd.

Mae'n bwysig i'r Awdurdod ei fod yn parhau i ddarparu gwerth am arian ac nad yw cost darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru yn anghymesur o uwch na gwasanaethau eraill.

✓ **Mae'r gost y dydd yn is am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**


Drwy ddefnyddio ffigyrau cyllideb refeniw flynyddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19[1], gallwn ni gymharu faint mae'n ei gostio y dydd i ddarparu'r gwahanol wasanaethau:




[1] Cyllideb Refeniw Awdurdodau Lleol a'r Rhagolwg Cyfalaf 2018-19, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Budgets/budgetedrevenueexpenditure-by-authority-service


✓ **Mae'r gost y pen am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yr un fath neu'n is**

O'i gyfrifo ar sail poblogaeth, mae cyllideb refeniw'r Awdurdod Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru yn 2018/19 yn cyfateb i £49 y pen o'r boblogaeth, o'i gymharu â £53 yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a £49 yn Ne Cymru.





✓ **Mae cost y pen o'r boblogaeth am Awdurdod Tân ac Gogledd Cymru yr un fath neu'n is**

Cymhariaeth arall yw bod hyn yn cyfateb i 13 ceiniog y pen y dydd yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â 15 ceiniog y pen y dydd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac 13 ceiniog y pen y dydd yn Ne Cymru.



- **Mae cynnydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o flwyddyn i flwyddyn wedi bod yn is**

O ran y patrymau diweddar yn y cynnydd yn y gyllideb, mae’r un ffigyrau cyllideb refeniw blynyddol a gyhoeddwyd yn dangos bod cyllideb refeniw gros Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cynyddu 1.7%, o £33.6 miliwn yn 2017/18 i £34.1 miliwn yn 2018/19.





Roedd yr 1.7% o gynnydd yng Ngogledd Cymru yn is nag yn yr un o’r ddau awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru. Fe wnaeth y gyllideb refeniw gros gynyddu 2.6% yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (o £46.8 miliwn i £48 miliwn) a 6.7% yn Ne Cymru (o £70.2 miliwn i £74.9 miliwn).

O ran y cynghorau sir a bwrdeistrefi sirol yng Nghymru, fe wnaeth eu cyllideb refeniw nhw gynyddu 1.5% rhwng 2017/18 a 2018/19. 1.1% oedd y cynnydd lleiaf yng Ngogledd Cymru, a 2.3% oedd y cynnydd mwyaf.

O ran Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, fe wnaeth eu cyllidebau refeniw nhw gynyddu 6.8% rhwng y ddwy flwyddyn. 2.9% oedd y cynnydd yng Ngogledd Cymru.


- ✓ **Roedd y gyfran o gyllidebau refeniw'r cynghorau sir a gafodd ei gwario ar wasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru yn debyg**

Cymhariaeth arall yw bod dadansoddiad o'r gyfran o gyfanswm cyllideb refeniw cynghorau sir Cymru sy'n cael ei dyrannu i wasanaethau tân ac achub yn eu hardal yn dangos bod y cyfraniadau yn 2018/19 yn 2.13% ar gyfartaledd o gyllidebau refeniw cyfunol y cynghorau yng Ngogledd Cymru o gymharu â 2.25% yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a 2.06% yn Ne Cymru.




Mae gan yr Awdurdod dri prif faes gwariant, sef costau gweithwyr, ariannu cyfalaf a chostau sy'n ydynt yn gysylltiedig â chyflogau.


### 1. Costau gweithwyr



Mae tua 72% o gostau'r Awdurdod yn gysylltiedig â gweithwyr, sy'n cynnwys cyflogau a ffioedd digwyddiadau, a chost hyfforddi staff. Mae'r rhan fwyaf o hynny yn cael ei wario ar ddiffoddwyr tân gweithredol.

Ar ddiwedd Mawrth 2018, roedd yr Awdurdod yn cyflogi mymryn o dan 900 o bobl mewn swyddi llawn amser a rhan amser. Diffoddwyr tân gweithredol oedd mwy na 700 o'r bobl hynny, ac roedd y gweddill yn cael eu cyflogi mewn swyddi arbenigol a chefnogol a swyddi'r Ystafell Reoli.



Mae'r swyddi arbenigol a chefnogol yn amrywio o'r rhai sy'n gwneud gweithgareddau gorfodi diogelwch tân ac atal tanau ar y rheng flaen, megis cynnal archwiliadau diogelwch yn y cartrefi, i rai sy'n darparu cymorth technegol, er enghraifft, mewn gwaith cynnal a chadw a rhoi serfis i injanau tân a pheiriannau eraill y fflyd, ac arbenigedd proffesiynol megis cyfrifyddu ariannol.


Yn fwy diweddar, mae'r Awdurdod wedi cyfrannu at ddatblygu amrywiaeth o brentisiaethau mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau, gan gynnwys fel diffoddwyr tân, ymarferwyr diogelwch cymunedol a mecanyddion y fflyd.

Gan mai ardal wledig yn bennaf yw Gogledd Cymru, diffoddwyr tân ar alw (y system RDS) yw staff y rhan fwyaf o'r gorsafoedd tân. Dim ond tair o'r pedwar deg pedwar o orsafoedd tân sydd â staff yno bob awr o'r dydd a'r nos ar y system Amser Cyflawn, ac mae pum gorsaf arall yn rhai amser cyflawn â chriw dydd. Ar gael yn ôl y galw yn unig y mae'r tri deg chwech o orsafoedd eraill. Mae diffoddwyr tân ar alw (y system ran amser neu RDS) yn cael eu talu am bob digwyddiad y maent yn cael eu galw atynt, ynghyd â thalu cadw blynyddol i fynd i nosweithiau ymarfer wythnosol a sesiynau hyfforddi.

Felly, mae angen i'r Awdurdod fod yn gallu rheoli bil cyflogau sy'n amrywio o fis i fis ac i flwyddyn i flwyddyn yn ôl nifer y digwyddiadau a faint o amser maen nhw'n bara. Mae cyfnod arbennig o wlyb gyda llifogydd eang neu gyfnod hir a sych gyda thanau estynedig yn gallu ychwanegu'n fawr at y swm sy'n cael ei wario ar ffioedd digwyddiadau'r system RDS.

Mae cyflogau ac amodau staff yn cael eu penderfynu'n genedlaethol gan mwyaf – mae 1% yn unig o godiad cyflog i'r staff yn gallu ychwanegu tua £180,000 at fil cyflogau blynyddol yr Awdurdod.


## 2. Ariannu cyfalaf



Mae tua 8% o’r gyllideb flynyddol yn cael ei wario ar ariannu pryniadau cyfalaf. Pryniadau cyfalaf yw’r rhai mawr sydd, er enghraifft, yn ymwneud â safleoedd, tyrrau hyfforddi ac injanau tân. Bydden nhw hefyd yn cynnwys offer fel cyfarpar cyfrifiadurol ac offer anadlu ar gyfer diffoddwyr tân.

Mae’r eitemau mawr yma yn darparu budd dros nifer o flynyddoedd ac fel arfer maen nhw’n cael eu hariannu drwy fenthyca. Yn debyg iawn i daliadau morgais, mae hyn yn gymorth i wasgaru cost pryniadau mawr dros y tymor hir. Mae cost flynyddol y llog ac ad-dalu’r prifswm yn dod o’r gyllideb refeniw.

## 3. Gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau



Mae tua 20% o'r gyllideb flynyddol yn cael ei wario ar eitemau sy'n cael eu categoreiddio fel gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau. Mae'r categori gwariant hwn yn cwmpasu amrywiaeth eang o eitemau sy'n ymwneud â rhedeg yr Awdurdod o ddydd i ddydd. Dyma bedwar prif ran y gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau:

Cyflenwadau a gwasanaethau (tua 9% o'r gyllideb)
Mae hyn yn cynnwys costau fel ffioedd archwilio a lwfansau aelodau, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, argraffu, dodrefn ac offer bach, a deunydd glanhau.


Safleoedd (tua 5% o'r gyllideb)
Mae hyn yn cynnwys rhenti, ardrethi, nwy a thrydan, a costau cynnal adeiladau a thir yr Awdurdod o ddydd i ddydd, gan gynnwys y pedwar deg pedwar o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru, gwahanol gyfleusterau hyfforddi, gweithdai a swyddfeydd.

Cludiant (tua 3% o'r gyllideb)
Mae hyn yn cynnwys costau cludiant ar gyfer fflyd yr Awdurdod o injanau tân, peiriannau arbennig a cherbydau cymorth, ac mae'n cynnwys cost atgyweirio a chynnal a chadw yn ogystal â thanwydd, treth ac yswiriant.


Cymorth a gwasanaethau eraill (tua 3% o'r gyllideb)
Mae hyn yn ymwneud â gweithgareddau y mae'r Awdurdod wedi penderfynu y dylid eu darparu'n allanol yn hytrach na thrwy gyflogi staff ychwanegol. Pan fo modd, mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac yn prynu amrywiaeth o wasanaethau arbenigol. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i fanteisio ar arbedion maint mewn amrywiaeth o swyddogaethau, gan gynnwys rheoli'r trysorlys, rheoli cyfleusterau, cyngor ynghylch caffael a chyngor cyfreithiol. Mae gan yr Awdurdod gontract allanol gydag arbenigwr ar gyfraith cyflogaeth hefyd.

Am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid yw'r cyfraniadau a ddaw i'r Awdurdod gan y cynghorau sir wedi bod yn ddigon i dalu ei wariant net. Yn hytrach, ar adeg pryd mae holl sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi bod dan bwysau ariannol, mae'r Awdurdod wedi dibynnu ar ei gronfeydd ariannol wrth gefn yn hytrach na chynyddu'r cyfraniadau i sicrhau cyllideb fantoledig.

Mae'r graff isod yn dangos sut mae'r cyfraniadau i'r Awdurdod tuag at gost gwasanaethau tân ac achub wedi bod yn is na'r gwariant gwirioneddol ers 2015/16. Bu hyn yn bosibl oherwydd roedd yr Awdurdod yn gallu dibynnu ar ddefnyddio ei gronfeydd ariannol wrth gefn i ategu'r cyfraniadau a gafodd.



Fel y gwelir yn y graff isod, fe wnaeth y cyfraniadau blynyddol aros yn gymharol gyson rhwng 2009/10 a 2016/17 wrth i'r Awdurdod wneud arbedion a dibynnu ar ei gronfeydd wrth gefn i amsugno'r cynnydd anochel yn y costau. Ond erbyn 2017/18, nid oedd gan yr Awdurdod ddewis ond cynyddu lefel y cyfraniadau.




Mae'r llinell goch ar y graff uchod yn dangos beth fyddai lefel y cyfraniadau petaent wedi cynyddu 0.5% flwyddyn ar ôl blwyddyn, sef o dan y gyfradd chwyddiant.

**2018/19**

Wrth edrych ar eleni, amcangyfrifwyd mai tua £34,847,178 yw cyfanswm gwariant yr Awdurdod. O'r cyfanswm hwnnw, bydd £33,492,877 wedi dod o gyfaniadau gan y cynghorau sir, £707,600 fel incwm arall a'r gweddill – sef £646,701 – o'r cronfeydd ariannol sydd gan yr Awdurdod wrth gefn. Ar y sail hwnnw, bydd £1.4 miliwn ar ôl yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd Mawrth 2019.

**2019/20**

Mae'r amcangyfrifon cynnar o gostau rhedeg yr Awdurdod y flwyddyn nesaf yn dangos y bydd cyfanswm ei wariant yn cynyddu 3.6% i £36,099,301. A chymryd bod yr incwm arall yn aros yn £707,600 ac nad yw defnyddio cronfeydd ariannol wrth gefn yn ddewis posibl mwyach, byddai hynny'n golygu bod angen cael **£35,391,701** drwy gyfraniadau gan y cynghorau sir.

A dim ond £1.4 miliwn yn ei gronfeydd wrth gefn, byddai angen i'r Awdurdod gael £1,898,824 o gynnydd yn y cyfraniadau gan y cynghorau sir y flwyddyn nesaf i dalu cyfanswm y gost a amcangyfrifir, sef **£35,391,701 drwy gyfraniadau**.

Ar gyfer 2019/20, er ein bod yn amcangyfrif mai dim ond £1,252,123 yn uwch yw gwariant yr Awdurdod nag yn 2018/19, byddai dod â chyfraniadau'r cynghorau sir i'r lefel honno yn golygu **ychwanegu £1,898,824 yn fwy** at eu cyfraniadau cyfunol yn 2018/19.


## PAM DDIM PARHAU I DDEFNYDDIO'R CRONFEYDD WRTH GEFN I GADW'R CYFRANIADAU'N IS?

Ni fyddai hyn yn gynaliadwy. Yn wahanol i'r gyllideb flynyddol, nid yw'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu hail-lenwi fel mater o drefn felly unwaith y mae'r arian wedi'i defnyddio mae'n cymryd amser i'w cynyddu eto drwy ddefnyddio tanwariannau.

Y rhesymau dros gadw cronfeydd cyffredinol wrth gefn yw clustogi effaith digwyddiadau annisgwyl, argyfyngau, a llif arian anwastad, a gallan nhw dalu costau trosiannol cynlluniau na ellid eu hariannu o'r gyllideb refeniw.

Hefyd, mae'r cronfeydd a glustnodwyd yn symiau a neilltuwyd ar gyfer eitemau penodol o wariant, am bethau fel prosiectau penodol sydd heb gael eu cwblhau yn y flwyddyn, neu i danategu cyllidebau yn y dyfodol.


Dim ond yn 2009 y dechreuodd awdurdodau tân ac achub gadw cronfeydd wrth gefn. Cyn hynny, dim ond awdurdodau sy'n bilio neu'n codi praesept allai wneud hynny.




Ar ôl cynyddu ei gronfeydd wrth gefn yn raddol i £2.7miliwn erbyn 2015/16 (swm sy'n cyfateb i 8.55% o wariant refeniw net yr Awdurdod y flwyddyn honno), mae'r ffaith fod y gwariant gwirioneddol wedi bod yn uwch na'r cyfraniadau gan y cynghorau sir ers hynny wedi golygu y bydd y cronfeydd wrth gefn wedi disgyn i lefel isel iawn o £1.4 miliwn (sef dan 4% o'r gwariant refeniw net) erbyn 2019/20 oni bai fod modd ychwanegu rhagor yn ôl i mewn, a chan gymryd nad oes mwy yn cael ei dynnu allan na'r swm arfaethedig o £646,701 yn 2018/19.

# PAM NAD YW'R GALW IS AM EICH GWASANAETHAU WEDI LLEIHAU'R COSTAU?

Mae strategaeth ataliol yr Awdurdod wedi cyfrannu'n fawr at ostwng pa mor aml y mae galw am ymateb brys. Mae'n amhosibl mesur faint yn union yn fwy fyddai'n cael ei wario ar ymateb brys nawr petai'r nifer heb ostwng, ond yn amlwg mae maint yr arbedion drwy fuddsoddi yn y gwaith ataliol wedi bod yn sylweddol.




(Sylwch: mae'r cynnydd diweddar yn nifer yr argyfyngau nad ydynt yn danau wedi digwydd yn rhannol oherwydd cynlluniau treialu gwaith ar y cyd â'r gwasanaethau Ambiwlans a'r Heddlu.)

I wasanaethau tân ac achub, dim ond un agwedd ar sicrhau gwerth am arian yw nifer y digwyddiadau yr awn atynt oherwydd mae pobl wrth gwrs yn disgwyl i ymateb brys fod ar gael pan fo angen, ni waeth faint o weithiau mae'r Gwasanaeth wedi cael ei alw allan o'r blaen.

**Yn wahanol i rai gwasanaethau cyhoeddus eraill, ni ellir cynllunio gwasanaethau tân ac achub brys ymlaen llaw o ran eu lleoliad, yr adeg o'r dydd, eu cymhlethdod na faint o amser maen nhw'n bara.** Drwy broffilio risgiau, gellir gweld bod angen cadw'r gofal gweithredol yn barod ar gyfer yr adegau pryd mae risg yn digwydd, boed ar ffurf tân neu fath arall o argyfwng nad yw'n dân.

Mae gostyngiad yn y galw am wasanaethau tân ac achub yn rhoi cyfle i wneud mwy o waith ataliol neu waith arall, yn hytrach nag yn gyfle i leihau gallu'r Gwasanaeth i ymateb i argyfyngau pan fo angen.

Yn anochel felly, er bod gostyngiad yn nifer y digwyddiadau yr awn atynt, byddai lefel y risg yn cynyddu petai nifer y gorsafoedd tân, y peiriannau tân neu'r diffoddwyr tân yn gostwng, boed o ran mwy o risg i fywyd pobl neu o ran mwy o risg i gymunedau, busnesau, yr amgylchedd naturiol, treftadaeth neu'r seilwaith trafnidiaeth er enghraifft.

Mae'r Awdurdod wedi bod yn gostwng ei gostau rhedeg a gwneud arbedion sylweddol dros nifer o flynyddoedd, ac mae'n dal wedi ymrwymo i adolygu'r costau a gwneud mwy fyth o arbedion yn y dyfodol. Er hynny, mae'n ymwybodol y byddai'n bosibl trosglwyddo'r costau heb i'r rheini gael eu gostwng oherwydd byddai'r angen i fynd at argyfyngau yn parhau hyd yn oed petai llai o orsafoedd tân, peiriannau tân neu ddiffoddwyr tân yng Ngogledd Cymru.

Hefyd, byddai rhai costau (er enghraifft, rhent ac ardrethi, biliau cyfleustodau, yswiriant a thrwyddedau yn anodd neu'n amhosibl eu lleihau'n sylweddol, ac mae natur gwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub yn golygu bod rhaid cynnal ansawdd pethau fel cyfarpar gweithredol, cerbydau argyfwng a hyfforddiant i ddiffoddwyr tân.

Gweler Daflen Wybodaeth 4 – Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a wnaethpwyd eisoes.


Gan mwyaf, mae'r newidiadau a wnaed i arbed arian wedi bod yn rhai mewnol nad yw'r cyhoedd wedi gallu eu gweld. Hyd yn hyn, mae'r Awdurdod wedi llwyddo i gadw ei holl orsafoedd tân ar agor er bod gostyngiad yn nifer y staff, er efallai y gallai'r cyhoedd ers 2015/16 fod wedi sylwi ar newid yn y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i larymau tân awtomatig ac ar y ffaith fod dau wasanaeth anstatudol wedi dod i ben. Mae bron yn sicr fod unrhyw un sy'n cysylltu â ni i ofyn am wasanaethau achub â rhaffau neu achub anifeiliaid mawr yn cael gwybod nad ydyn ni'n darparu'r rhain mwyach.

Ond gydag amser, **mae wedi dod yn fwyfwy anodd canfod ffyrdd o wneud rhagor fyth o arbedion heb amharu ar wasanaethau tân ac achub rheng flaen**.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau[2] posibl ar gyfer gwneud arbedion. A rhyw 72% o'r gyllideb refeniw yn cael ei dyrannu i gostau gweithwyr, a rhyw 80% o staff y Gwasanaeth yn cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân gweithredol, **ni fyddai modd sicrhau arbedion mawr heb wneud gostyngiadau sylweddol ym maint y gweithlu gweithredol**.


[2] http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338266/7-cynllun-gwella-a-lles.pdf

Er y byddai cau gorsafoedd tân neu leihau maint y fflyd weithredol yn sicrhau rhai arbedion (yn bennaf o ran ariannu cyfalaf, cynnal a chadw a chostau rhedeg cyfredol), byddai'r ymateb gweithredol yn parhau felly byddai llawer o'r arbedion yn cael eu colli wrth i gostau ychwanegol gael eu trosglwyddo i leoliad gwahanol.



Map yn dangos lleoliad gorsafoedd tân

Yn groes i'r disgwyl efallai, y gorsafoedd tân a'r peiriannau tân lleiaf prysur fyddai'n rhyddhau'r swm lleiaf o arbedion, ond ar y llaw arall effaith cael gwared ar y rhai prysuraf fyddai trosglwyddo llwyth gwaith (a throsglwyddo'r gost) i orsafoedd tân eraill, gan gynyddu y risg i'r gymuned.




Map yn dangos lleoliad prif danau 2017/18

## FAINT O GYNNYDD Y GALLAI'R CYNGHORAU SIR EI DDISGWYL?

Fel yr esboniwyd eisoes, £36,099,301 yw'r amcangyfrif o gyllideb yr Awdurdod yn 2019/20 is. A chymryd bod incwm arall yn aros yn £707,600 (sef yr un fath ag yn 2018/19), ac nad yw defnyddio cronfeydd ariannol wrth gefn yn ddewis posibl mwyach, byddai hynny'n golygu bod angen cael £35,391,701 drwy gyfraniadau gan y cynghorau sir.

Er bod yr Awdurdod wedi dibynnu ar ei gronfeydd ariannol wrth gefn i helpu i gadw'r cyfraniadau gan y cynghorau sir yn isel, ni fydd mewn sefyllfa i wneud yr un peth yn 2019/20. Felly er yr amcangyfrifir mai dim ond £1,252,123 (3.7%) yn uwch fydd gwariant yr Awdurdod nag yn 2018/19, byddai dod â chyfraniadau'r cynghorau sir i'r lefel honno yn golygu ychwanegu £1,898,824 (5.7%) at lefel eu cyfraniadau yn 2018/19.

Cyfraniadau ychwanegol i ymorol am y cynnydd cyfan yn 2019/20:

| | Amcangyfrif poblogaeth 2018 | Cyfraniadau 2018/19 | Y pen y dydd | Ychwanegol | Cyfraniadau 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 70,175 | £3,356,175 | **13 ceiniog** | £190,272 | 3,546,447 |
| Gwynedd | 123,660 | £5,914,137 | | £335,292 | 6,249,429 |
| Conwy | 116,879 | £5,589,830 | | £316,906 | 5,906,736 |
| Sir Ddinbych | 95,530 | £4,568,797 | | £259,021 | 4,827,818 |
| Sir y Fflint | 154,923 | £7,409,315 | | £420,058 | 7,829,373 |
| Wrecsam | 139,143 | £6,654,624 | | £377,273 | 7,031,897 |
| CYFANSWM | 700,310 | £33,492,877 | | £1,898,824 | £35,391,701 |

## ALLAI’R CYNGHORAU SIR DALU LLAI NA’R SWM CYFAN?


Mater i’r Awdurdod ei benderfynu yn Rhagfyr 2018 yw cyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2019/20, ond yr hyn sy’n ymddangos yn glir eisoes yw y bydd angen rhai cyfraniadau ychwanegol gan y cynghorau sir.

Ar sail ei asesiad o’r risg dan sylw, mae’n bosibl y gallai’r Awdurdod osod ei gyllideb ar lefel is na’r costau rhedeg mae’n eu hamcangyfrif, a gweithredu cynllun i leihau ei gostau rhedeg ei hun fel ei fod yn gallu dechrau’r flwyddyn gyda chyllideb fantoledig. Byddai’r mater o faint yn is na’r costau mae’n eu hamcangyfrif y byddai’r Awdurdod yn fodlon gosod ei gyllideb yn dibynnu ar yr hyn y mae’r Awdurdod yn ei ystyried yn briodol o ran ei broffil risgiau ei hun, ond hefyd ar gydnabod y pwysau ar y cynghorau sir.

Gan fod yr Awdurdod eisoes wedi penderfynu peidio â cheisio cael arbedion ar raddfa a fyddai’n golygu cael gwared ar adnoddau tân ac achub yn 2019/20 (cau gorsafoedd tân, cael gwared ar beiriannau tân neu ddiswyddo diffoddwyr tân), byddai unrhyw ostyngiad yn y costau yn gorfod bod ar raddfa lai. **Bydd yr Awdurdod yn gwneud ei benderfyniad ym mis Rhagfyr 2018, pryd bydd yn cytuno ar gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf, ar ôl ystyried yr ymateb i’r ymgynghoriad hwn ac yng ngoleuni trafodaethau gyda’r cynghorau sir.**

Mae’n bosibl felly y gallai’r Awdurdod osod ei gyllideb yn seiliedig ar wneud rhai arbedion i leihau’r cynnydd y bydd ei angen yng nghyfraniadau’r cynghorau sir.

Mater i’r Awdurdod fydd hyn, yn seiliedig ar ei asesiad o faint y arbedion a fyddai’n bosibl heb amharu ar wasanaethau rheng flaen.



Fel enghraifft, mae'r tabl isod yn mesur tair sefyllfa wahanol o ran y cyfraniadau ychwanegol a'r arbedion cysylltiedig y byddai angen i'r Awdurdod eu gwneud er mwyn cael cyllideb fantoledig yn 2019/20.

| | Cyfraniadau 2018/19 | Amcangyfrif o'r gyllideb angenrheidiol 2019/20 | Cyfraniadau ychwanegol i dalu **75%** o'r £1,898,824 o ddiffyg | Cyfraniadau ychwanegol i dalu **85%** o'r £1,898,824 o ddiffyg | Cyfraniadau ychwanegol i dalu **100%** o'r £1,898,824 o ddiffyg |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | £3,356,175 | 3,546,447 | +£142,704 | +£161,731 | +£190,272 |
| Gwynedd | £5,914,137 | 6,249,429 | +£251,469 | +£284,998 | +£335,292 |
| Conwy | £5,589,830 | 5,906,736 | +£237,680 | +£269,370 | +£316,906 |
| Sir Ddinbych | £4,568,797 | 4,827,818 | +£194,266 | +£220,167 | +£259,021 |
| Sir y Fflint | £7,409,315 | 7,829,373 | +£315,044 | +£357,049 | +£420,058 |
| Wrecsam | £6,654,624 | 7,031,897 | +£282,955 | +£320,682 | +£377,273 |
| CYFANSWM | **£33,492,877** | **£35,391,701** | **+£1,424,118** | **+£1,614,000** | **+£1,898,824** |
| Swm yr arbedion y byddai angen i'r Awdurdod eu gweithredu →: | | | -£474,706 | -£284,823.60 | £0 |

## A FYDDAI CYFRANIADAU UWCH YN GOLYGU MWY O DRETH GYNGOR?

Ddim o reidrwydd. Byddai cyfraniadau uwch i'r Awdurdod Tân ac Achub yn golygu pwysau costau ychwanegol ar y cynghorau sir, ond byddai'n rhaid edrych ar hynny yng nghyd-destun cynlluniau gwariant pob cyngor ar gyfer y flwyddyn, a'r swm y byddai'n disgwyl ei godi drwy'r dreth gyngor yn ei ardal. Mater i bob cyngor sir ei hun fyddai hynny.

Ar y mwyaf, petai'r Awdurdod yn mynd amdani ac yn cael y cynnydd llawn yn ei gyllideb y flwyddyn nesaf, sef £1,898,824, **byddai'r effaith ariannol ar gyngor sir unigol yn amrywio rhwng cyfrannu £190,272 yn ychwanegol (Ynys Môn) a £420,058 (Sir y Fflint).**

A chymryd bod yr Awdurdod yn penderfynu cael y cynnydd llawn yn ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, sef £1,898,824, a chymryd bod y cynghorau sir yn penderfynu codi'r holl swm ychwanegol drwy gynnydd yn y dreth gyngor yn eu hardal, gallai'r cynnydd hwnnw fod **tua £6 neu £7 i bob cartref ym Mand D**.

Gan ddefnyddio ffigyrau sylfaen drethu 2018/19 ar gyfer pob sir (mae'r rhain yn newid bob blwyddyn), byddai'r £1,898,824 yn ychwanegol – petai'n cael ei adlewyrchu'n llawn yn nhreth gyngor cartref Band D cyfartalog – yn ychwanegu'r canlynol: £6.18 (0.54%) yn Ynys Môn; £6.44 (0.49%) yng Ngwynedd; £6.33 (0.54%) yng Nghonwy; £6.55 (0.52%) yn Sir Ddinbych; £6.58 (0.56%) yn Sir y Fflint; a £7.08 (0.65%) yn Wrecsam. **Y cyfartaledd yng Ngogledd Cymru fyddai £6.53 (0.55%) yn ychwanegol.**

**Mae'r arian y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei wario ar wasanaethau tân ac achub yn cael ei ddarparu gan y chwe chyngor sir yn yr ardal. I dalu ei gostau, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod yn gofyn am hyd at £1.9 miliwn yn fwy y flwyddyn nesaf.**

**Cwestiwn 1 Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n rhesymol i ofyn i gynghorau sir dalu'r swm ychwanegol?**

A. Ydw. Byddai'n well gen i weld y swm ychwanegol o £1.9 miliwn yn dod gan y cynghorau sir na bod gwasanaethau tân ac achub lleol yn cael eu lleihau.
B. Yn rhannol. Byddwn i eisiau gweld swm agos i'r £1.9 miliwn sydd ei angen yn dod gan y cynghorau sir os yw hynny'n golygu cynnal y gwasanaethau tân ac achub lleol, ond byddwn i'n disgwyl i'r ATA geisio lleihau ei gostau rhedeg.
C. Na. Dydw i ddim yn meddwl y dylai'r cynghorau sir dalu unrhyw beth yn agos i £1.9 miliwn yn ychwanegol, hyd yn oed os yw hynny'n golygu bod Gogledd Cymru yn colli rhai gwasanaethau tân ac achub.

**Petai raid i'r cynghorau sir dalu £1.9 miliwn yn fwy am wasanaethau tân ac achub y flwyddyn nesaf, gallen nhw benderfynu cael hynny drwy'r treth gyngor. Gallai'r cyfanswm ychwanegu £6 neu £7 y flwyddyn ar gyfartaledd at y bil y dreth gyngor Band D.**

**Cwestiwn 2 Yn eich barn chi:**

A. Byddai £6 neu £7 yn fwy y flwyddyn nesaf yn werth ardderchog am arian ac yn werth ei dalu.
B. Byddai £6 neu £7 yn fwy y flwyddyn nesaf yn dderbyniol, ond dim mwy na hynny.
C. Byddai £6 neu £7 yn fwy y flwyddyn nesaf braidd yn ormod i'w ofyn.
D. Byddai £6 neu £7 yn fwy y flwyddyn nesaf yn llawer gormod i'w ofyn.

**Cwestiwn 3 Petai'r Awdurdod Tân ac Achub yn penderfynu lleihau ei gostau rhedeg yn y dyfodol, sut dylai wneud hynny?**

A. Dydw i ddim yn derbyn y dylai'r Awdurdod orfod lleihau ei gostau rhedeg.
B. Rydw i'n meddwl y dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei gostau, ond ni ddylai'r gostyngiad effeithio ar lefel argaeledd nag ansawdd gwasanaethau rheng flaen.
C. Rydw i'n meddwl y dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei gostau, ac rydw i'n derbyn y byddai'n rhaid lleihau rhai gwasanaethau rheng flaen o bosibl.
D. Rydw i'n meddwl y dylai gwasanaethau tân ac achub gostio cyn lleied â phosibl, hyd yn oed os yw hynny'n golygu cau gorsafoedd tân a diswyddo diffoddwyr tân.

**GWYBODAETH YCHWANEGOL**

| | |
|---|---|
| 1 | Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| 2 | Pwerau a dyletswyddau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| 3 | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| 4 | Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a wnaethpwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| 5 | Cyfraniadau gan y cynghorau sir 2011/12 i 2018/19 |

## TAFLEN WYBODAETH 1

Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Ynys Môn**

- Richard Griffiths, richardgriffiths@anglesey.gov.uk
- Eric Wyn Jones, ericjones@anglesey.gov.uk
- Dylan Rees, dylanrees@ynysmon.gov.uk

**Gwynedd**

- Annwen Daniels, cynghorydd.annwendaniels@gwynedd.llyw.cymru
- Simon Glyn, cynghorydd.simonglyn@gwynedd.llyw.cymru
- John Brynmor Hughes, cynghorydd.JohnBrynmorHughes@gwynedd.llyw.cymru
- Dilwyn Lloyd, cynghorydd.i.dilwynlloyd@gwynedd.llyw.cymru
- Gethin Glyn Williams, cynghorydd.gethinglynwilliams@gwynedd.llyw.cymru

**Conwy**

- Peter Lewis, cllr.peter.lewis@conwy.gov.uk (Dirprwy Gadeirydd)
- Sue Lloyd-Williams, cllr.sue.lloyd-williams@conwy.gov.uk
- Roger Parry, cllr.roger.parry@conwy.gov.uk
- Nigel Smith, cllr.nigel.smith@conwy.gov.uk
- Adrian Tansley, cllr.adrian.tansley@conwy.gov.uk

**Sir Ddinbych**

- Brian Blakeley, brian.blakeley@denbighshire.gov.uk
- Ann Davies, janetann.davies@denbighshire.gov.uk
- Meirick Lloyd Davies, meirick.davies@sirddinbych.gov.uk (Cadeirydd)
- Peter Evans, peter.evans@denbighshire.gov.uk

**Sir y Fflint**

- Marion Bateman, marion.bateman@flintshire.gov.uk
- Ian Dunbar, ian.dunbar@flintshire.gov.uk
- Veronica Gay, veronica.gay@flintshire.gov.uk
- Paul Shotton, paul.shotton@flintshire.gov.uk
- Owen Thomas, owen.thomas@flintshire.gov.uk
- David Wisinger, david.wisinger@flintshire.gov.uk

**Wrecsam**

- Bryan Apsley, bryan.apsley@wrexham.gov.uk
- Michael Dixon, michael.dixon@wrexham.gov.uk
- Geoff Lowe, geoff.lowe@wrexham.gov.uk
- Rondo Roberts, rondo.roberts@wrexham.gov.uk
- J Rodney Skelland, rodney.skelland@wrexham.gov.uk

**TAFLEN WYBODAETH 2**

Darnau allweddol o ddeddfwriaeth sy'n diffinio pwerau a dyletswyddau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

- Mae **Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** yn egluro beth yw dyletswyddau a phwerau'r Awdurdod i:
  - Hybu diogelwch tân;
  - Ymladd tanau;
  - Amddiffyn pobl ac eiddo rhag tanau;
  - Achub pobl o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd;
  - Ymateb i risgiau penodol eraill, megis digwyddiadau cemegol;
  - Ymateb i argyfyngau mawr fel ymosodiadau terfysgol.

- Mae **Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007** a **(Diwygio) 2017** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod mewn cysylltiad ag argyfyngau sy'n ymwneud â halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; cwympiadau strwythurol; trenau, tramiau neu awyrennau; a llifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol pan maent yn golygu perygl marwolaeth, anaf difrifol neu salwch.

- Mae **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynllunio ar gyfer ac ymateb i argyfyngau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, i'r amgylchedd neu i ddiogeledd.

- Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod orfodi diogelwch tân ar safleoedd annomestig, gan gynnwys y rhannau cymunol mewn bloc o fflatiau a thai amlfeddiannaeth.

- Dan **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009**, rhaid i'r Awdurdod osod amcanion ar gyfer gwella'n barhaus yr hyn mae'n ei wneud a chyhoeddi gwybodaeth am ei welliannau a'i berfformiad.

- Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol, a hynny'n unigol ac fel aelod statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

- Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn gosod dyletswyddau ar yr Awdurdod i dalu sylw dyledus i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio, hybu cyfle cyfartal, a meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig.

## TAFLEN WYBODAETH 3

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu:

|  | **Gorsafoedd Tân Shifftiau 24 a** | **Gorsafoedd Tân Criw Dydd** |
|---|---|---|
| | Mae tair gorsafoedd tân â chriw yno bob awr o'r dydd a'r nos. Mae'r rhain yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy (Queensferry) a'r Rhyl. | Pum gorsaf dân sydd â chriw yno rhwng hanner dydd a 10:00p.m., ac sy'n gweithredu fel gorsafoedd tân ar alw (RDS) y tu allan i'r oriau hyn. Mae'r rhain yng Nghaernarfon, Bangor, Caergybi, Llandudno a Bae Colwyn. |
| Mae gan bob un o'r 8 o orsafoedd tân amser cyflawn un injan dân a staff ar alw yn griw arni, yn ogystal ag un injan dân sydd â staff y system Amser Cyflawn yn griw arni, ac eithrio Wrecsam sydd â dwy (17 i gyd). | | |
| **Gorsafoedd Tân y System ar alw (RDS)** | | |
| Tri deg chwech o orsafoedd yn gweithredu'n llwyr fel gorsafoedd tân y System RDS | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn**<br>1 orsaf criw dydd<br>6 gorsaf ar alw | **Conwy**<br>2 orsaf criw dydd<br>6 gorsaf ar alw | **Sir y Fflint**<br>1 orsaf shifftiau 24 awr<br>4 gorsaf ar alw |
| **Gogledd Gwynedd**<br>2 orsaf criw dydd<br>4 gorsaf ar alw | **Sir Ddinbych**<br>1 orsaf shifftiau 24 awr<br>6 gorsaf ar alw | **Wrecsam**<br>1 orsaf shifftiau 24 awr<br>2 orsaf ar alw |
| **De Gwynedd** 8 gorsaf ar alw | | |
| Ymhob un o'r 36 o orsafoedd tân ar alw mae yna un injan dân sydd â chriw ar alw arni, ac eithrio Pwllheli, sydd â dwy (sef 37 i gyd). Am lawer o'r amser, nid oes staff ar orsaf dân ar alw. Mae pob diffoddwr ar alw yn cario teclyn rhybuddio yn ei boced, ac mae hwnnw'n canu pan fo ei angen. Bydd swyddi eraill gan ddiffoddwyr ar alw, ond pan mae eu hangen byddan nhw'n dod yn rhan o dîm, a gan ddibynnu ar y math o ofal sy'n cael ei roi, gall diffoddwr tân ar alw ymateb o gartref a/neu'r gwaith, ddydd a/neu'r nos. | | |

**STAFF:** Ar 31 Mawrth 2018, roedd Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflogi:



| | Cyfwerth â llawn amser | Nifer y staff unigol |
|---|---|---|
| Amser Cyflawn Gweithredol | 257.67 | 262 |
| Ar alw (RDS) gweithredol* | 369.75 | 443 |
| Gwaith cefnogol ac ataliol | 146.03 | 155 |
| Ystafell Reoli | 32.75 | 36 |
| Cyfansymiau | 806.20 | 896 |

* Oherwydd natur 'ar alwad' y swyddi, maen nhw'n cael eu cyfrifo fel 'unedau 24 o ofal' yn hytrach na chyfwerth â llawn amser.

## TAFLEN WYBODAETH 4

Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a wnaethpwyd eisoes gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

| 2011/12 | |
|---|---|
| **£31,932,654 oedd cyfanswm y cyfraniadau.**<br><br>Blwyddyn 1 o gynllun ariannol 3 blynedd 2011/12 - 2013/14.<br><br>**£800,000 yn llai o gostau.** | • Tynnu £460,000 o gyllideb rheolaeth weithredol drwy ailstrwythuro trefniadau gofal swyddogion.<br>• Tynnu £200,000 o linellau penodol yn y gyllideb naill ai drwy derfynu neu leihau gwariant a gynlluniwyd.<br>• Tynnu £90,000 o gyllideb Staff Cefnogol.<br>• Tynnu £50,000 o gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.<br>• Tynnu £30,000 o gyllideb yr Ystafell Reoli drwy ailstrwythuro'r adran.<br>• Lleihau costau darparu'r swyddogaeth Diogelwch Tân Busnesau, gan gynnwys drwy drosglwyddo swyddi o delerau ac amodau'r llyfr llwyd (gweithredol) i'r llyfr gwyrdd (staff cefnogol).<br>• Tynnu un o'r pedwar peiriant ALP allan o fflyd y Gwasanaeth.<br>• <u>Arbedion eraill:</u><br>• Cadw lefel mynychu cynadleddau mor isel â phosibl.<br>• Newid y ffordd o ddarparu dysgu gweithredol.<br>• Peidio ag ariannu digwyddiad Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc.<br>• Cyfuno gwahanol seremonïau gwobrwyo. |
| **2012/13** | |
| **£31,772,011 oedd cyfanswm y cyfraniadau** (£160,643 yn llai na'r flwyddyn flaenorol).<br><br>Blwyddyn 2 o gynllun ariannol 3 blynedd 2011/12 - 2013/14.<br><br>**Gwneud £815,000 o arbedion.** | • Tynnu £500,000 o gyllideb gyflogau diffoddwyr tân gweithredol (22 o swyddi amser cyflawn) drwy newid y ffordd yr oedd shifftiau gwaith yn cael eu cylchrestru ond heb effeithio ar nifer y diffoddwyr tân mewn criw.<br>• Tynnu £150,000 o linellau penodol ar y gyllideb naill ai drwy derfynu neu leihau gwariant a gynlluniwyd.<br>• Tynnu £50,000 o'r gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.<br>• Tynnu £90,000 arall o gyllideb Staff Cefnogol. |

| 2013/14 | |
|---|---|
| **£31,772,011 oedd cyfanswm y cyfraniadau** (yr un faint â'r flwyddyn flaenorol).<br><br>Blwyddyn 3 o gynllun ariannol 3 blynedd 2011/12 - 2013/14.<br><br>**Sicrhau £800,000 o arbedion.** | • Tynnu £500,000 o gyllideb gyflogau diffoddwyr tân gweithredol (fel y flwyddyn flaenorol).<br>• Dyrannu diffoddwyr tân drwy Gronfa Adnoddau Gweithredol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gorsafoedd tân ar alw (RDS) o ddydd i ddydd.<br>• Tynnu £70,000 o linellau penodol yn y gyllideb naill ai drwy derfynu neu leihau gwariant a gynlluniwyd, am y trydydd tro.<br>• Tynnu £50,000 o gyllideb Diogelwch Tân Cymunedol.<br>• Tynnu £180,000 o gyllideb Staff Cefnogol. |
| **2014/15** | |
| **£31,772,011 oedd cyfanswm y cyfraniadau** (rhewi'r gyllideb am flwyddyn arall)**.** | • Penderfynwyd defnyddio cronfeydd ariannol wrth gefn i ymorol am unrhyw ddiffyg ac i osgoi cyflwyno'r toriadau mawr a fyddai'n angenrheidiol fel arall. Ond roedden ni'n deall na fyddai'r opsiwn hwn yn gynaliadwy am fwy o amser na'r flwyddyn hon. |
| **2015/16** | |
| **£31,885,843 oedd cyfanswm y cyfraniadau** (cynnydd o £113,000),<br><br>£223,000 o gronfeydd wrth gefn ar gael i ymorol am y diffyg. | • Rhagweld £16,000 o arbedion drwy derfynu gwasanaethau anstatudol, e.e. darparu gwasanaethau achub anifeiliaid mawr ac achub â rhaffau.<br>• Arbed £35,000 drwy derfynu gwasanaethau anstatudol (Atal Tân).<br>• Rhagweld £25,000 o arbedion drwy newid y polisi ar ymateb i alwadau gan Larymau Tân Awtomatig. Roedd yr arbedion gwirioneddol yn uwch – arbedion arian parod yn £67,889.50 ac arbedion nad oeddent yn arian parod o ddefnyddio amser yn fwy effeithiol ar gyfer gweithgareddau fel diogelwch cymunedol.<br>• Rhagweld £250,000 o arbedion drwy ddileu pedair swydd rheolwyr canol (swyddogion dyletswydd hyblyg), gostwng nifer y swyddi o'r fath o 32 i 28, sef y lefel isaf bosibl i weithredu systemau gwaith diogelwch dan y system genedlaethol ar gyfer Rheoli Digwyddiadau.<br>• Strwythur Rheolwyr gweithredol newydd (Medi 2015).<br>• Cyflwyno contractau "amser cyflawn gwledig" i darparu 21 awr yr wythnos. |

| 2016/17 | |
|---|---|
| **£31,885,843 oedd cyfanswm y cyfraniadau** (yr un faint â'r flwyddyn flaenorol).<br><br>£454,000 o gronfeydd wrth gefn ar gael i ymorol am y diffyg. | • Mai 2016, amcangyfrifodd yr Awdurdod y byddai £1.7miliwn o fwlch cyllido erbyn 2018/19 a chronfeydd ariannol yn lleihau. Er eu bod yn cydymdeimlo â'r pwysau ariannol ar y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus, roeddent hefyd yn cydnabod y pwysau costau anochel o ganlyniad i chwyddiant prisiau a chyflogau a newidiadau ym mholisïau'r llywodraeth ar bensiynau.<br>• Mehefin 2016, amcangyfrifodd yr Awdurdod y byddai £2.26miliwn o fwlch cyllido erbyn 2019/20 a chronfeydd ariannol yn lleihau. Nid oedd yn ystyried bod ei strategaeth o barhau i rewi ei gyllideb yn un gynaliadwy.<br>• Cynigiodd y Panel Gweithredol y dylai'r Awdurdod fabwysiadu strategaeth newydd o 2017/18 ymlaen yn cyfuno cyfraniadau uwch, lleihau gwasanaethau a defnyddio cronfeydd wrth gefn i ymorol am unrhyw ddiffyg. Byddai hyn yn golygu cynnydd sylweddol yn y cyfraniadau yn 2017/18 ond yna byddai dwy flynedd (2018/19 a 2019/20) heb ragor o gynnydd yn y cyfraniadau.<br>• Bu'r gweithgor cynllunio yn gweld sut gellid gwneud arbedion i helpu i gadw cyfraniadau'r cynghorau sir yn isel, ac fe wnaethant ganfod £1,000,000 o arbediad posibl drwy dynnu un peiriant tân amser cyflawn o Wrecsam (gan adael un peiriant tân amser cyflawn ac un peiriant RDS yno).<br>• Hydref 2016, bu'r Awdurdod yn meddwl am y ffaith fod y Gwasanaeth wedi sicrhau £3miliwn o arbedion a bod ei weithlu wedi gostwng 9%, ond i ymorol am 1% o godiad cyflog, cost yr ardoll brentisiaethau, cost refeniw'r gyllideb gyfalaf a chwyddiant prisiau annewisol, byddai rhaid i gyfraniadau'r cynghorau sir gynyddu £1.7miliwn yn 2017/18.<br>• Rhagfyr 2016, bu'r Awdurdod yn meddwl eto am yr arbedion a wnaethpwyd eisoes ond gwrthodwyd y cynnig i gael £1.7million o gynnydd yn y cyfraniadau yn 2017/18 (a oedd yn cynnwys £740,000 o ddiffyg yn y gyllideb yn 2016/17 a oedd wedi'i ariannu o'r cronfeydd wrth gefn). Fel dewis arall, penderfynodd yr Awdurdod gael £1.28miliwn o gynnydd yn y cyfraniadau yn 2017/18 ac yna i gael 1.3% o gynnydd arall yn 2018/19 petai angen. Gellid ymorol am unrhyw ddiffyg yn 2017/18 o'r cronfeydd wrth gefn. |

| | |
|---|---|
| | • Bwriad yr Awdurdod oedd dechrau'r paratoadau yn 2017 i gael £1,000,000 o ostyngiad yn y costau rhedeg o 2019/20 ymlaen. Ond ym mis Mawrth 2017, rhoddwyd gorau i'r posibilrwydd o geisio cael £1,000,000 o arbedion i ddod i rym yn 2019/20 drwy dynnu peiriant tân o Wrecsam pan benderfynodd yr Awdurdod dynnu'r opsiwn a chaniatáu i'r Awdurdod newydd, ar ôl Mai 2017, wneud ei benderfyniadau ei hun am ei strategaeth ariannol. |
| **2017/18** | |
| **£33,161,277 oedd cyfanswm y cyfraniadau** (£1,275,434 o gynnydd).<br><br>£414,000 ar gael o'r cronfeydd wrth gefn i ymorol am y diffyg. | |
| **2018/19** | |
| **£33,492,877 oedd cyfanswm y cyfraniadau** (cynnydd o £331,600).<br><br>£646,000 ar gael o'r cronfeydd wrth gefn i ymorol am y diffyg. | • Arbed £366,000 bob blwyddyn drwy adolygu'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw.<br>• Rhagfyr 2017, penderfynodd yr Awdurdod ar 1% (£331,600) yn ychwanegol yn y cyfraniadau yn 2018/19 – sef llai na'r 1.3% a grybwyllwyd yn Rhagfyr 2016 a llai na'r 4.05% a fyddai wedi talu cyfanswm y costau amcangyfrifiedig yn 2018/19 (fel y cyfrifwyd cyn y penderfyniad am y polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw). |

**TAFLEN WYBODAETH 5**

Cyfraniadau gan y cynghorau sir tuag at gost gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | £3,236,545 | £3,219,270 | £3,216,231 | £3,198,669 | £3,200,523 | £3,190,812 | £3,330,579 | £3,356,175 |
| Gwynedd | £5,588,685 | £5,525,827 | £5,507,985 | £5,588,255 | £5,602,787 | £5,598,221 | £5,851,817 | £5,914,137 |
| Conwy | £5,240,568 | £5,206,959 | £5,198,570 | £5,283,704 | £5,289,891 | £5,277,177 | £5,539,433 | £5,589,830 |
| Sir Ddinbych | £4,549,039 | £4,569,316 | £4,593,630 | £4,342,155 | £4,360,740 | £4,363,962 | £4,524,683 | £4,568,797 |
| Sir y Fflint | £7,051,716 | £6,981,590 | £6,955,089 | £7,018,721 | £7,033,548 | £7,022,578 | £7,339,795 | £7,409,315 |
| Wrecsam | £6,266,101 | £6,269,049 | £6,300,506 | £6,340,507 | £6,398,354 | £6,433,093 | £6,574,971 | £6,654,624 |
| **CYFANSWM** | **£31,932,654** | **£31,772,011** | **£31,772,011** | **£31,772,011** | **£31,885,843** | **£31,885,843** | **£33,161,277** | **£33,492,877** |
| Newid | | -£160,643 | 0 | 0 | +£113,832 | 0 | +£1,275,434 | +£331,600 |
| | | | | | | | | |
| Amcangyfrif o’r boblogaeth | 688,417 | 690,434 | 691,986 | 694,038 | 695,549 | 697,122 | 698,715 | 700,310 |
| **£ y pen** | **£47** | **£46** | **£46** | **£46** | **£46** | **£46** | **£47** | **£48** |
| Gwir gost (gwariant net) | £31,021,654 | £31,523,220 | £31,772,011 | £31,155,730 | £31,033,062 | £32,382,843 | £33,254,360 | £34,139,578* |

*Amcangyfrif.